# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion: EOC(3)-09-10: Dydd Mawrth, 22 Mehefin 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV ar: w

ww.senedd.tv/

**Amser: 10.00 - 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones, Dyffryn Clwyd (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Tystion

### Eitem 2

Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Dave Thomas, Rheolwr Prosiectau Rheilffyrdd
Tim James, Cyfarwyddwr yr Is-Adran Trafnidiaeth Integredig

### Swyddogion y Pwyllgor

Claire Morris, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc
Leon Gooberman, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

### Eitem 2: Ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd - tystiolaeth lafar gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Papur EOC(3)-09-10(p1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd.

2.2 Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Weinidog i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol fel a ganlyn:

Bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ystyried y wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Passenger Focus mewn perthynas â gorfodi y rhai a fydd yn gwenud cynnig am fasnachfraint Cymru a'r Gororau yn y dyfodol i wella hygyrchedd cyfleusterau'r gorsafoedd.

Nodyn ar 'hen hawliau' rhai gorsafoedd a'r goblygiadau i wella gorsafoedd o'r fath.

Nodyn ar sut mae Cymru yn cymharu â'r Alban o ran pwerau rheoleiddio.

### Eitem 3: Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2010

3.1 Cytunodd y Pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) a 10.37(ix), i wahardd y cyhoedd o'i gyfarfod nesaf ar 6 Gorffennaf i drafod materion yn ymwneud â'i adroddiad ar Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd a chytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer ei ymchwiliad nesaf.

### 4: Papurau a nodwyd

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

EOC(3)-08-10 Cofnodion y cyfarfod a gynahliwyd ar 8 Mehefin 2010